Emyr John

Ymunodd Emyr â Un Llais Cymru ym mis Ionawr 2022 fel Swyddog Prosiect Cynghorau Cymuned a Thref Sir Benfro. Ar ôl gweithio yn Adran Adfywio Cyngor Sir Caerfyrddin am dros 10 mlynedd a wedyn fel Uwch Swyddog Prosiect gyda PLANED ar Raglen LEADER rhwng 2016 a 2021, mae gan Emyr brofiad sylweddol mewn meysydd fel adfywio cymunedol, codi arian, gweithio ar rhaglenni cyllido Ewropeaidd, monitro prosiectau ac archwilio.

Mae Emyr yn annog cydweithredu rhwng cymunedau a phartneriaethau newydd ar draws y Sir. Mae'n siaradwr Cymraeg rhugl a anwyd yn Sir Benfro ac mae'n hyrwyddo monitro a systemau prosiectau, gan rannu arfer gorau, cydweithredu cymunedol a rhwydweithio. Mae hefyd potensial i Gynghorau i weithio ar draws y Sir mewn 'clystyrau' neu o fewn grwp thema arbennig.

Fel rhan o'i rôl yn cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref Sir Benfro, bydd Emyr yn ceisio creu cyfleoedd i bobl ifanc i ymrwymio gyda'u cynghorau, a hybu gweithgareddau cymunedol sy'n ymneud â phrosiectau digidol neu syniadau 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol'. Bydd elfen arall o'r swydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o beth mae Cynghorau Cymuned, Thref a Dinas yn gwneud, codi ymwybyddiaeth ar sut i fod yn Gynghorwr ac i helpu trigolion i ddeall sut i godi syniadau neu pryderon gyda'u Cyngor. Gall Emyr hefyd helpu i hyrwyddo 'ymarfer da' ac adnabod cyfleoedd i gyd-weithio â phartneriaid fel Cyngor Sir Penfro, PLANED, PAVS a chymdeithasau tebyg.

Wedi bod yn Gynghorwr Cymunedol ei hun am ddeng mlynedd yn y gorffennol, mae Emyr yn gwerthfawrogi'r sialens sydd yn gwynebu Cynghorau Cymuned a Thref a mi fydd ei brofiad a'i sgiliau yn werthfawr wrth iddo gefnogi'r Cynghorau gyda'u syniadau a'u prosiectau.